

## DAVIS, ELIZABETH (BETSI CADWALADR) (1789 - 1860), nyrs a theithwraig

PDF Generated on: Sat, 10 Sep 2022 03:16:44 +0000

<https://yba2-prawfweb-prawfdata.llgc.org.uk/article/c12-DAVI-ELI-1789>

Enw: Elizabeth Davis

Dyddiad geni: 1789

Dyddiad marw: 1860

Partner: H\_\_\_

Partner: James B\_\_\_

Partner: Thomas Harris

Rhiant: Judith Cadwaladr (née Humphreys)

Rhiant: Dafydd Cadwaladr

Rhyw: Benyw

Galwedigaeth: nyrs a theithwraig

Maes gweithgaredd: Meddygaeth; Teithio

Awdur: Gwyneth Tyson Roberts

Ganwyd Betsi Cadwaladr ar fferm ei thad, Penrhiw ger y Bala, Sir Feirionnydd, ar 24 Mai 1789, y trydydd plentyn ar ddeg o un ar bymtheg (fe ymddengys), i [Dafydd Cadwaladr](#) (1752-1834) a'i wraig Judith (née Humphreys neu 'Erasmus', bu farw 1800). Fe'i bedyddiwyd yn Llanycil ar 26 Mai 1789. Yn ôl ei *Autobiography*, newidiodd Betsi ei chyfenw o 'Cadwaladr' i 'Davis' pan oedd yn byw ymhlith y di-Gymraeg nad oedd yn medru ynganu 'Cadwaladr'. Fel ei brodyr a'i chwirydd hwn, mabwysiadodd 'Davis' ar sail enw bedydd ei thad, gan ddefnyddio'r hen system batronymaidd Gymreig.

Yr oedd ei thad, [Dafydd Cadwaladr](#), yn bregethwr adnabyddus gyda'r Methodistiaid Calfinaidd, yn aelod o Gyfundeb y Dduges Selina, Huntingdon ac yn gyfaill agos i [Thomas Charles](#) o'r Bala. Roedd ei chwaer iau Bridget (1795?-1878) yn forwyn i'r [Arglwyddes Augusta Hall](#) yn Llundain a Llanofar, sydd yn esbonio'r gefnogaeth a dderbyniodd hunangofiant Betsi o du'r [Arglwyddes Llanofar](#).

Y mae'n rhaid pwysleisio bod pob gwybodaeth fanwl am fywyd Betsi Cadwaladr, ar wahan i'w dyddiadau geni a marw, a dechrau a diwedd ei gwasanaeth fel un o nyrsys Florence Nightingale, yn deillio o *The Autobiography of Elizabeth Davis a Balaclava Nurse Daughter of Dafydd Cadwaladr* Edited by Jane Williams (*Ysgafell*), a gyhoeddwyd ym 1857. Dygwyd allan argraffiadau o'r gyfrol gan Wasg Honno ym 1987 a 2015. Yn yr olaf, adferwyd testun gwreiddiol 1857 yn llawn am y tro cyntaf. Gollyngasid rhagair [Jane Williams](#) o'r argraffiadau cynharach, gan gwtogi a newid hanes bywyd Betsi yn ogystal.

Yn ôl ei hunangofiant, treuliodd Betsi Cadwaladr ei blynyddoedd cynnar ar fferm ei thad. Triniwyd hi'n wael gan ei chwaer hwn, a oedd yn cadw'r tŷ yn dilyn marwolaeth eu mam ym 1795-6, ac o ganlyniad ffôdd Betsi i gartref tirseistr eu tad, [Simon Lloyd](#), Plas-y-n-dre, y Bala. Treuliodd y pum mlynedd nesaf yno, gan dderbyn addysg dda a hyfforddiant fel morwyn tŷ. Wedi addo aros gyda'r teulu am flwyddyn yn ychwanegol, penderfynodd, serch hynny, ei bod hi angen gweld mwy o'r byd, gan adael am Lerpwl yn ddisymwth. Treuliodd sawl blwyddyn yno yng ngwasanaeth nifer o deuluoedd. Ym 1815-16, teithiodd o gwmpas gwledydd Ewrop gyda theulu un o'i chyflogwyr. Ymddengys iddi ddatblygu hoffter o fynychu'r theatr ac o actio yn ystod y cyfnod hwn.

Yng nghymuned Cymry Lerpwl y cyfarfu Betsi ei darparwr cyntaf, Thomas Harris, capten llong fasnachol o Solfach yn Sir Benfro. Boddodd Harris ddau ddiwrnod cyn eu priodas pan ddrylliwyd ei long y tu allan i borthladd Lerpwl. Diweddiodd Betsi sawl tro ar ôl hynny, yn gyntaf gyda James B\_\_\_, peintiwr tai o Gaer, ond ffôdd i Lundain ddau ddiwrnod cyn y briodas, gan aros yn nhŷ [John Jones](#) (Jac Glan-y-gors), perthynas bell iddi. Yn ystod y cyfnod dilynol yn Llundain, lle bu'n gweithio fel morwyn tŷ, diweddiodd am amser byr â chlustogwr y cyfeiria'r hunangofiant ato fel H\_\_\_ yn unig.

Ym mis Tachwedd 1820, dechreuodd weithio fel morwyn i wraig capten llong fasnachol ar daith i India'r Gorllewin. Wedi'r daith gyntaf hon, ac yn gyflogedig gan gyfres o wragedd capteiniaid llongau, ymwelodd â De Affrica, De America, Awstralia, Seland Newydd, Singapwr ac ynysoedd y Môr Tawel, yn ogystal â Gwlad Groeg, Twrci a'r Aiff. Yn ystod y cyfnod hwn daeth yn brofiadol ym maes nyrsio, yn fynych o dan amodau anodd, pan fyddai teithwyr neu aelodau'r criw yn sâl, a gweithredodd fel bydwaig mewn sawl achos yn ogystal.

Wrth iddi heneiddio, treuliodd Betsi fwy o'i hamser yn ôl ym Mhrydain, gan wasanaethu fel morwyn yng ngogledd Cymru ym 1844-5 ac yn y de ym 1849. Gweithiodd am ryw flwyddyn fel nyrs yn Ysbyty Guy yn Llundain wedyn, cyn dilyn yr un swydd fel nyrs breifat yng nghartrefi cleifion. Yn hydref 1854 darllenodd adroddiad papur newydd ar Frwydr Afon Alma, brwydr fawr gyntaf Rhyfel y Crimea, a phenderfynodd yn syth i deithio yno 'to see what was going on, and to take care of the wounded', yn ôl yr *Autobiography*. Gwirfoddolodd fel nyrs, ond bu'n rhy hwyr iddi ymuno â charfan nyrsys Florence Nightingale.

Gorchmynnodd Nightingale na ddylai rhagor o nyrsys adael Prydain nes iddi geisio amdanynt, ond yr oedd ail garfan dan arweiniad Mary Stanley eisoes wedi gadael Llundain ar 2 Rhagfyr 1854, a Betsi Cadwaladr yn eu plith. Ni chafodd Nightingale wybod amdanynt tan wythnos cyn i'w llong lanio yn Istanbwl, pan fu'n rhy hwyr i'w troi yn ôl. O ganlyniad, canfyddent nad oedd eu heisiau yno, a'u bod heb lety addas na thasgiau i lenwi eu hamser. Yn ei blinder a'i rhwystredigaeth rhoddwyd y bai ar Nightingale gan Betsi, a gymerodd yn erbyn y nyrs enwog y tro cyntaf y clywodd ei henw.

Amcan Betsi oedd mynd i'r Crimea, ac wedi treulio deng niwrnod yn ysbyty'r fyddin Brydeinig yn Scutari ar gyrion Istanbwl, llwyddodd i wneud hynny. O ganlyniad i wrthdaro chwerw â Florence Nightingale (a oedd yn gallu bod yn ffroenuchel gyda'r sawl a welodd yn israddol iddi yn gymdeithasol), trosglwyddodd Betsi i ysbyty'r fyddin yn Balaclava. Yn ôl ei hadroddiad ei hun, roedd ganddi'r egni, y nerth a'r stumog cryf i weithio'n effeithlon yn y ward yno. Serch hynny, symudwyd hi ar ôl rhyw chwe wythnos i fod yn gyfrifol am y gegin a fyddai'n paratoi bwyd i'r dynion a oedd yn rhy wan neu dost i stumogi dogn y Fyddin Brydeinig. Gweithiodd yno ar ei phen ei hun am y rhan fwyaf o'r amser, o bump y bore tan hanner nos, saith diwrnod yr wythnos, am fwy na saith mis. Ar ddiwedd y cyfnod hwn yr oedd yr oriau hir, y gwaith caled a'r amgylchiadau anodd yn effeithio ar ei hiechyd. Dioddefodd o ddolur rhydd a disentri, ac anfonwyd hi adre i Brydain ym mis Tachwedd 1855. Daeth penllaw ei dicter tuag at Nightingale yn y ddadl ddilynol am gyflog dyledus iddi am ei gwaith yn y Crimea.

Dychwelodd i Brydain, 'in broken health ... and unprovided for', yng ngeiriau'r apêl am roddion a geir yn ei *Autobiography*. Nid oes cofnod faint o arian a godwyd drwy werthiant y llyfr. Bu farw yng nghartref ei chwaer Bridget yn nwyrain Llundain ar 17 Gorffennaf 1860 ac fe'i claddwyd mewn bedd tlotyn ym Mynwent Abney Park. Yn 2012 canfuwyd lleoliad ei bedd a chodwyd maen coffa iddi gan Goleg Brenhinol y Nyrsys. Ceir arno yr arysgrifiad dwyieithog, 'Y ffyddlonaf o Nyrsys Ei Mawrhydi' a 'The faithful[est] of Her Majesty's Nurses'. Deillia'r fersiwn Saesneg o eirida Margaret Wear, y bu Betsi yn gweithio odani yn Balaclava, ac a gafwyd o'r *Autobiography*.

Hanes bywiog ac egniol am fywyd a phrofiadau Betsi a geir yn yr *Autobiography*, ac mae'r adroddiadau am ei theithiau yn enwedig yn llawn o anturiaethau peryglus a chyffrous. Arddengys drwy lawer ohonynt ei gwroldeb, ei dewrder corfforol, ei dyfeisgarwch, a'i hunanfeddiant. Y mae hefyd yn nodi iddi dderbyn dros ugain cais i'w phriodi. Dilynwyd Betsi gan fasnachwr Portiwgeaidd o'r enw Barbosa hanner ffordd o gwmpas y byd, hyd yn oed, gan geisio ei herwgipio i ofodi priodas. Ymddengys nad oedd yr un ohonynt yn cymharu'n ffafriol â'i chariad cyntaf, y Capten Harris. Ei phrif nodweddiadau, yn ôl testun yr *Autobiography*, oedd ei hysbryd annibynol a'i Chymreictod balch, a bwysleisir o dudalen cyntaf yr hanes tan yr olaf. Ymddengys iddi wrthwynebu awdurdod bydol pryd bynnag y daeth ar ei draws, ond arhosodd yn Gristion ymroddedig drwy gydol ei bywyd, gan drysori'r *Beibl* a roddwyd iddi yn blentyn gan [Thomas Charles](#).

Y mae hi'n bwysig cofio bod hanes ei bywyd yn annibynadwy ar adegau, fel y dengys esiampl ei hoedran. Yng nghofrestr nyrsys Florence Nightingale rhoddodd ei hoedran fel 55 pan ymrestrodd yn hydref 1854. Pe bai wedi gosod ei gwir oedran o 65, byddai wedi cael ei gwrthod yn syth, ac yr oedd yn benderfynol o fynd i'r Crimea. Yn yr *Autobiography* ceir oedran sydd rhwng y ddau, o bosib am y byddai'r gwir oedran wedi datgelu ei chelwydd i gyfeillion Nightingale. Eto i gyd, pe bai wedi defnyddio'r oedran a geir yn y gofrestr, byddai ei chyfeillion bore oes wedi sylwi ar y twyll. O ganlyniad, y mae ei hoedran yn yr *Autobiography* yn amlwg yn anghywir mewn perthynas i sawl digwyddiad pwysig. Er enghraifft, honnir ei bod yn bum mlwydd oed pan fu farw ei mam, ond cofnodwyd claddedigaeth y fam yng Nghofrestr Plwyf Llanycil ar gyfer 10 Chwefror 1800, pan oedd Betsi yn ddeng mlwydd oed.

Dengys 'Preface' yr *Autobiography* gan [Jane Williams](#) (Ysgafell), un o haneswyr benywaidd cyntaf Cymru, faint ei chyfraniad hithau i gynnwys y gyfrol. Ymddengys i Williams geisio llenwi'r bylchau yng nghof Betsi ynghyd â manylion digwyddiadau, amseroedd, daearyddiaeth, ac enwau pobl a lleoedd. Ychwanegodd hefyd at arddull y testun. Mae rhai brawddegau yng ngeiriau Betsi ei hun, tra bod eraill yn efelychiad gan Williams o iaith lafar Betsi. Y mae rhai o'r troednodiadau yn cwestiynu neu'n gwrth-ddweud datganiadau yn y testun mewn ffordd sydd yn dangos mai Betsi a benderfynodd pa wybodaeth a fyddai yn y prif destun, ond mai Williams a reolai'r troednodiadau. O ganlyniad, yn hytrach nag ystyried yr *Autobiography* yn 'chronicle of true facts', dylid ei drin fel cynnyrch cydweithrediad cymhleth rhwng Betsi Cadwaladr a [Jane Williams](#).

## Awdur

Gwyneth Tyson Roberts

## Ffynonellau

*Cofrestr plwyf Llanycil*

'Register of Nurses sent to the Military Hospitals in the East', (LD/FNM/0073; Florence Nightingale Museum, St Thomas's Hospital, London)

Mark Bostridge, *Florence Nightingale: The Woman and the Legend* (London 2008)

Helen Emanuel Davies, 'Cymraes y Crimea: Betsi Cadwaladr', *Y Wawr*, 149 (Gaeaf 2005), 13

Meirion Jones, *Elizabeth Davies, 1789-1860* (Cardiff 1960)

Gwyneth Tyson Roberts, "'Winding silkworms cocoons without a reel!"; Betsy Cadwaladr, Jane Williams (Ysgafell) and the writing of *The Autobiography of Elizabeth Davis*, *Almanac: a yearbook of Welsh Writing in English* (Cardigan, 2010), 36-61  
Jane Williams (ed.), *The autobiography of Elizabeth Davis: a BalACLava nurse, daughter of Dafydd Cadwaladr* (London 1857),  
[Cyfrol 1](#); [Cyfrol 2](#)

Jane Williams (ed.), *The autobiography of Elizabeth Davis. Betsy Cadwaladr: A BalACLava Nurse* (Cardiff 1987)

Jane Williams (ed.), *Betsy Cadwaladr a BalACLava Nurse. An Autobiography of Elizabeth Davis* (Dinas Powys 2015)

Cecil Woodham-Smith, *Florence Nightingale 1820-1910* (London 1950)

## Darllen Pellach

BBC cymruhanes: [Betsi Cadwaladr](#)

BBC waleshistory: [The Welsh nightingale](#)

BBC cymrufyw: [Chwalu 'myth' Betsi Cadwaladr](#), 20 Medi 2019

Deirdre Beddoe, [Davis \[née Cadwaladr\], Elizabeth \[Betsy\]](#), *Oxford Dictionary of National Biography*

Beryl H. Griffiths, *Mamwlad* (Gwasg Carreg Gwalch Llanrwst 2016), tt.11-36

National Archives: [Elizabeth Cadwaladr](#)

[Elizabeth 'Betsi' Cadwaladr](#), 100MenywodCymreig

D. J. Thorp, *Betsi Cadwaladr: Nyrs yn y Crimea* (Bala 2013)

Gruffydd Jones, *The Incredible Adventures of Betsi Cadwaladr: 'Welsh Florence Nightingale' or 'Munchausen in Petticoats'?* *An evaluation of The Autobiography of Elizabeth Davis as a historical source.* (2019), traethwd hir israddedig i'r Brifysgol

Agored, modiwl A329, The Making of Welsh History. Ar gael ar-lein: <http://oro.open.ac.uk/62652/>

Gruffydd Jones, Pwy oedd Betsi Cadwaladr?, *O'r Pedwar Gwynt*, Rhifyn 10, Haf 2019

Erthygl Wicipedia: [Betsi Cadwaladr](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [36760658](#)

Wikidata: [Q4898236](#)

Dyddiad cyhoeddi: 2019-05-21

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

